

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru

04 Hydref 2019

Annwyl Andrew

Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru

Bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Reoli Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol ar draws Cymru ar 23 Medi. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o nodi bod pob un o'r 10 argymhelliad yn yr Adroddiad wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru ac roeddent yn rhesymol sicr bod y materion a nodwyd bellach yn cael eu cymryd yn llawer mwy o ddifrif nag a oedd yn amlwg cyn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac ymchwiliad dilynol y Pwyllgor. Fodd bynnag, byddwn yn monitro a yw'r gwelliannau parhaus yn cael eu trosi yn erbyn y mesurau perfformiad perthnasol.

Mae rhai materion sy'n deillio o'r ymateb yr hoffwn i gael eglurhad arnynt yn y tymor byr. Er enghraifft, pam na all Llywodraeth Cymru fod yn fwy diffiniol ar hyn o bryd ynghylch ei hymateb i Argymhelliad 4. Roedd Aelodau yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach wrth osod targedau o beth fydd y canlyniad i fyrddau iechyd o beidio â chwrdd â nhw a hyd yn oed yn fwy felly lle mae rhywfaint o arian ychwanegol yn mynd i mewn i gefnogi gwelliant, er enghraifft ym maes Offthalmoleg. Byddwn yn croesawu cadarnhad o faint o arian y mae pob bwrdd iechyd unigol wedi'i gael, neu y byddant yn ei gael, yn 2019-20 i gefnogi gwelliant yn y ddisgyblaeth hon.



Mae'r ymateb yn nodi y byddaf yn cael diweddariadau ar wahanol adegau. A gaf i awgrymu bod derbyn diweddariad ar ddiwedd Ebrill 2020 yn bwynt allweddol i bwyso a mesur y cynnydd a wnaed yn 2019-20 ac y bydd yn galluogi'r Pwyllgor i ystyried a yw'n dymuno cymryd tystiolaeth bellach yn nhymor yr haf 2020 os nad yw'n fodlon â chyfradd y cynnydd. Yn ogystal, hoffwn ofyn ar y pwynt hwnnw, am ddiweddariad ar gamau gweithredu eraill, yn benodol ar Argymhelliad 2 gan fod yr ymateb yn awgrymu y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2020 ac o ran Argymhellion 7 ac 8, mae'r ymatebion yn awgrymu y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud erbyn mis Rhagfyr 2019.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long horizontal flourish at the end.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

